

# Aberavon Seafront

## Glan y môr Aberafan



Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot, gyda chymorth Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU cyllid, wedi gofyn i Roberts Limbrick Architects ddatblygu syniadau i wella Glan Môr Aberafan.

Bydd Uwchgyllun Glan Môr Aberafan yn helpu'r Cyngor a'r partneriaid i wella'r ardal hon o'r arfordir. Mae'r cynllun canlynol yn canolbwyntio ar sut mae pobl yn mynd o gwmpas, yn ystyried safleoedd ac adeiladau a danddefnyddir ac yn cynnig cyfleoedd i weithgareddau newydd ddigwydd. Mae'r cynigion ar y tudalennau canlynol yn ategu'r dibenion a'r atyniadau presennol.

Mae'r cynllun hwn yn ymwneud hefyd â diogelu ardaloedd fel y twyni a sicrhau ein bod yn rheoli unrhyw weithgareddau ac effeithiau yn y dyfodol. Yn olaf, mae'r cynllun yn ymwneud â llesiant pobl leol yn ogystal â'r rheini sy'n ymweld o ymhellach i ffwrdd.

Neath Port Talbot Council, with the support of UK Government's Shared Prosperity Fund, have asked Roberts Limbrick Architects to develop ideas to improve Aberavon Seafront.

The Aberavon Seafront Masterplan will help the Council and partners to enhance this area of the coast. The following plan has a focus on how people get around, considers under-used sites and buildings and offers opportunities for new activities to take place. The proposals on the following pages complement existing uses and attractions.

This plan is also about protecting areas such as the dunes and ensuring we manage any future activities and impacts. The plan is finally about the well-being of local people as well as those that visit from further afield.

### BETH YW NOD EIN STRATEGAETH AR GYFER YR YMGYNGHORIAD HWN AR YR UWCHGYNLLUN?

- Sefydlu cynnig glan môr o safon uchel sy'n amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol a dathlu hunaniaeth unigryw'r morlin.
- Hyrwyddo defnydd gan y gymuned a llesiant y gymuned, ond hefyd annog datblygu a thwristiaeth gynaliadwy.
- Creu glan môr sy'n lle byrlymus a threfnus i drigolion, sy'n dal i apelio at ymwelwyr presennol a denu ymwelwyr newydd i Aberafan gan annog ymweliadau twristiaeth drwy gydol y flwyddyn.
- Mae'r uwchgyllun canlynol wedi cael ei ddatblygu ar sail yr hyn rydych chi wedi ei ddweud wrthym mewn ymgynoriadau blaenorol.

Rydym nawr yn ceisio eich barn ar yr uwchgyllun hwn.

### WHAT IS OUR STRATEGY AIM FOR THIS MASTERPLAN CONSULTATION?

- Establish a quality seafront offer that protects and enhances the natural environment and celebrates the distinctive identity of the coastline.
- Promote community use and well-being yet also encourage development and sustainable tourism.
- Create a seafront that is active and organised for residents, continues to appeal to existing visitors and attracts new visitors to Aberavon encouraging year round tourism visits.
- The following masterplan has been developed based on what you have told us at previous consultations.

We are now seeking your views on this masterplan.



Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU



Funded by  
UK Government



# Aberavon Seafront

## Glan y môr Aberafan



### YR HYN ROEDDECH CHI'N EI DDWEUD ...

- Daeth 236 o bobl i'r ymgynghoriad galw heibio wyneb yn wyneb ar 16 a 17 Chwefror yng Nghanolfan Hamdden a Ffitrwydd Aberafan.
- Fe wnaeth 444 o bobl gwblhau'r holiadur ar-lein.
- Gwnaed 396 o sylwadau ar Facebook.

### Pwy a Ymatebodd ...

- Mae 92.6% o'r ymatebwyr yn byw yn ardal Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Port Talbot, ac o'r rhain mae 34.8% yn byw yn Aberafan, 25.8% yn Port Talbot a'r gweddill yn byw yn rhywle arall yn y Fwrdeistref Sirol.
- Mae 29.4% yn ymweld yn ddyddiol gan eu bod yn lleol, gyda 36.4% yn ymweld sawl gwaith yr wythnos, 11.5% unwaith yr wythnos a 12.9% ychydig o weithiau'r mis.
- Pan ofynnwyd i bobl pa ddulliau trafniadaeth maent yn eu defnyddio (aml-ddewis), daw 70.1% mewn car, 45.9% yn cerdded, 12.4% yn beicio a 2.7% yn dal y bws.

### WHAT YOU HAVE TOLD US ...



- 236 people attended the face to face drop in consultation on the 16th and 17th February at Aberavon Leisure and Fitness Centre.
- 444 people completed the online questionnaire.
- 390 comments were made on Facebook.

### Who Responded ...

- 92.6% of respondents live in the Neath and Port Talbot County Borough area.
- Of these 34.8% live in Aberavon, 25.8% in Port Talbot with the remainder living elsewhere in the County Borough.
- 29.4% visit daily due to them being local, with 36.4% visiting several times a week, 11.5% once per week and 12.9% a few times a month.
- When asking people which modes of travel they use (multi-choice), 70.1% come by car, 45.9% walk, 12.4% cycle and 2.7% catch the bus.

### Eich Profiad Presennol Your Current Experience

### Beth yw'r prif bethau'r ydych chi'n eu gwneud ar y glan môr? What are the main activities you undertake at the seafront?



Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU



Funded by  
UK Government



# Aberavon Seafront

## Glan y môr Aberafan



### Adborth Feedback

Roeddech chi'n dweud bod y pethau allweddol canlynol am y glan môr yn dda

- Cyflwr llwybrau a seilwaith beicio
- Y ganolfan hamdden a ffitrwydd a'r sinema
- Cyflwr cyffredinol ardal y traeth

You told us the following key things about the seafront were good

- Footways condition and cycle infrastructure
- Leisure and fitness centre and cinema
- Overall quality of the beach area



Roeddech chi dweud y gellid gwella'r pethau allweddol hyn ynghylch y glan môr

- Lle i barcio, toiledau cyhoeddus, cyfleusterau newid ar y traeth a chawodydd a biniau
- Aqua splash, y cynnig bwyd a diod, lleoedd chwarae i blant, gyda'r parc sglefrio yn dilyn yn agos
- Digwyddiadau sbwriel, baw ci a rhai awgrymiadau am wella hygyrchedd i'r traeth

You told us the following key things about the seafront could be improved

- Parking, public toilets, beach changing facilities and showers and bins
- Aqua splash, the food and drink offer, children's play areas followed closely by the skate park
- Incidents of litter, dog mess and some suggestions on improving accessibility for the beach

### Themâu Allweddol:



### Key Themes:



Dyma'r themâu allweddol a ddaeth allan o'r ymgynghoriad cymunedol

Adnoddau Glan Môr, Toiledau, Cyfleusterau Newid, Seddau a Llecynnau Gwyrdd  
Seafront Amenities – Toilets, Changing Facilities, Seating and Green Space

Y Gyrcfan – Bwyd a Diod, Hamdden a Llesiant, Sglefrio a Chwaraeon Stryd, Llety  
The Destination – Food & Drink, Leisure & Well-being, Skate and Street Sports, Accommodation

Rheoli – Marchnata a Datblygu Cynnyrch a Digwyddiadau  
Management - Marketing and Product Development and Events

These are the key themes that came from the community consultation

Digwyddiadau a Gweithgareddau – Cymuned, Marchnadoedd, Digwyddiadau a Gwyliau  
Events & Activities – Community, Markets, Events and Festivals



Cysylltedd – Arwyddion, Teithio Llesol a Llwybrau  
Connectivity – Signage, Active Travel and Trails



Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government



Roberts Limbrick

# Aberavon Seafront

## Glan y môr Aberafan



### Yr Uwchgyllun

### The Masterplan

Lle bwyd a diod newydd, creu adeilad cyrchfan  
New food & drink outlet, destination building created

Arwyddion maes parcio a thrwy barc y twyni  
Carpark signage and way finding through dunes park

Bloc toiledau newydd a lle i gaffi  
New toilet block and cafe space

Ehangu'r caffi, integreiddio'r cwt beiciau  
Cafe extended, bike shed integrated

Adeilad cyrchfan newydd, gwesty a datblygiad aml-ddefnydd  
New destination building, hotel and mixed use development

Cysylltiadau cryf trwy goridorau hamdden a llesol  
Strong links via leisure & active corridors

Integreiddio parciau chwarae newydd â'r busnesau a'r lle chwarae presennol  
New play parks integrated with existing businesses & play

Aqua Splash newydd a symlach  
New rationalised Aqua Splash

Gwell ysgol syrffio gyda lle 'syrffio sych' awyr agored  
Upgraded surf school with outdoor 'dry surf' space



Ardal sba 'gardd llesiant' newydd cysylltiedig â chwaraeon dŵr  
New 'wellness garden' spa zone linked with water sports

Llecyn agored, gwyrdd gyda chytiau traeth a chytiau manwerthu  
Events space, green with beach huts and retail huts

Gwella toiledau a chreu canolbwynt newydd ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus  
Upgraded toilets and new public event plaza created

Llecyn newydd ar gyfer tryciau bwyd, gorchuddion y gellir eu tynnu a lle i ddigwyddiadau  
New area for food trucks, removable covers and events space

Parc Sglefrio  
Skate Park

Gerddi ar lefelau gwahanol a gerddi suddedig  
Tiered levels of gardens and sunken gardens

Gerddi suddedig a chysylltiadau Teithio Llesol newydd ar hyd y ffordd  
Sunken Gardens and new Active Travel links along road

Bloc toiledau newydd ac ailddychmygu lleoliad y Morfil  
New toilet block and re-imagined Whale setting

Cysylltiadau teithio llesol cryf i Newbridge Road  
Strong active travel links to Newbridge Road

# Aberavon Seafront

## Glan y môr Aberafan



# 01

### Clwb Morol, Parc Twyni

### Naval Club, Dunes Park

1. Cychfan newydd yn yr hen Glwb Morol – bistro, bwyty bwyd a diod neu gaffi yma.
2. Golygfeydd panoramig o'r twyni a'r morlin yma.
3. Creu Parc Twyni – amgylchedd naturiol.
4. Byrddau ar draws y twyni – ar gyfer cerddwyr, lliniaru erydiad.
5. Seddau 'poced' penodol – cysgod rhag gwynt ar gyfer picnic etc.
6. Hybu a gwarchod byd natur – cryfhau'r twyni â phlanhigion brodorol a gwydn.
7. Mynediad ramp cwbl agored i bawb i'r traeth.
8. Bloc toiledau newydd – lle i newid, dŵr a chawodydd.
9. Ciosg coffi bach, seddau integredig a lle cadw beiciau gydag arwyddion.
10. Cryfhau'r cyswllt o ben draw'r promenâd – annog symudiad o ben draw'r prom.

1. New destination at former Naval Club - bistro, food and drink restaurant or café here.
2. Panoramic views of the dunes and coastline here.
3. Dunes Park created - natural environment.
4. Boarding across dunes - contain walkers, mitigate against erosion.
5. Dedicated seating 'pockets' - shelter from wind for picnics etc.
6. Boost & protect natural wildlife - strengthen dunes with native and robust planting.
7. Fully open ramp access to for all to the beach.
8. New toilet block - changing, water & showers.
9. Small coffee kiosk, integrated seating and bicycle storage with signage.
10. Link from the end of the promenade reinforced - encourage movement from the end of the prom.



# 02

### Canolfan Gyrchfan

### Destination Hub

11. Mannau defnydd cymysg newydd a chanolbwynt gyrchfan sy'n cynnwys llety, bwyd a diod, defnyddiau cymunedol a gardd ystafell ddosbarth awyr agored.
12. Llety arhosiad byr ar gyfer chwaraeon dwr, beicwyr mynydd, defnyddwyr y traeth ac ymwelwyr eraill dros nos
13. Lle i ardd ac ystafell ddosbarth awyr agored
14. Cartrefi fforddiadwy 1 i 4 ystafell well
15. Cyfle am strwythurau hyblyg i roi cysgod gerllaw Memo Café gan gynnwys sied beiciau i gadw a pharcio beiciau a sgwteri'n ddiogel
16. Gwell croesfannau at ymyl y traeth

11. New mixed-use space and destination hub that includes accommodation, food and drink, community uses and an outdoor classroom garden.
12. Short stay accommodation for water sports, mountain bikers, beach users and other overnight visitors.
13. Outdoor classroom and garden space.
14. Affordable 1 to 4 bedroom homes.
15. Opportunity for tensile structures to provide shade and shelter (eg next Memo Café) including a bike shed to safely secure and park bicycles, scooters etc.
16. Improved crossings to beach front.



Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU



Funded by  
UK Government



# Aberavon Seafront Glan y môr Aberafan



## 03

### Ardal gyfun Parc Chwarae a Sblashio

1. Ardal chwarae newydd – mwy o offer chwarae i blant o bob oed a gallu. Offer chwarae newydd a hygyrch i gyd yn yr un lle.
2. Seddau a meinciau newydd.
3. Llwybr beicio hamdden integredig – tirwedd cymysg i hyrwyddo beicio am hwyl.
4. Denu plant newydd iau i'r parc sglefrïo i'r ardegau gyda rampiau, bowlenni integredig etc.
5. Cysylltiadau cryf â'r rhwydwaith Teithio Llesol sy'n rhedeg ar hyd Princess Margaret Way ac sy'n bwydo i'r llwybr cerdded a beicio hamdden ar hyd y prom. Cysylltiadau â'r maes parcio yn y gogledd yn cael eu sgrinio gan blannu strategol / byffers a safleoedd bws integredig ar ddwy ochr y ffordd yma.
6. Cytiau traeth – cyfle manwerthu a hamdden.
7. Ymgorffori Golff Antur â'r llecyn gyda ffryntiad bywiog, wedi ei sgrinio trwy blannu strategol ac addas.
8. Y llecyn sblashio wedi cael ei symleiddio'n ffurf linellol gyda llawer mwy o le i eistedd o gwmpas y 'lle sblashio'. Cyfle am ystafell newid fwy yn y llecyn Sblashio i gael mwy o gapasiti.
9. Atgyfnerthu busnesau o fewn yr ardal chwarae gyda pharth cyhoeddus newydd a thirlunio / seddau deniadol addas.
10. Cyfle am le newydd ar gyfer sba neu ardd lesiant sy'n llwyr gofleidio natur unigryw'r glan môr. Sawnâu etc o fewn yr ardd. Cyfle i gysylltu â syrffio a chwaraeon dŵr yn cynnig gardd ddeniadol yma.



## 03

### Combined Play and Splash Park Area

1. New play zone - more play equipment for children of all ages and abilities. New & accessible play equipment all in one space.
2. New seating and benches.
3. Integrated leisure cycle route - mixed terrain to promote fun cycling.
4. New younger children to teenager skate park with integrated ramps, bowls etc.
5. Strong links to Active Travel network running along Princess Margaret Way which feeds into the leisure walking and cycling route along the prom. Links to car park in the north screened by strategic planting / buffers and integrated bus stops on both sides of the road here.
6. Beach huts opportunity for retail and recreation.
7. Adventure Golf incorporated into the space with active frontage, screened via strategic and appropriate planting.
8. Splash zone has been rationalised into a linear form with much more space for sitting around the 'splash area'. Opportunity for a larger changing structure at the Splash Zone for more capacity.
9. Businesses within the play zone are reinforced with a new public realm and attractive landscaping / seating areas.
10. New area opportunity for a spa or wellness garden fully embracing the unique nature of the seafront. Saunas etc within garden. Opportunity to link into surfing and water sports offering an attractive garden here.



Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU



Funded by  
UK Government



**rl.**  
Roberts Limbrick

# Aberavon Seafront Glan y môr Aberafan



## 04

### Llecyn Gardd a Digwyddiadau

1. Cyfle am ysgol syrffio well a mwy, lleoliad allweddol gerllaw'r llithrfra, mynediad hawdd i'r traeth.
2. Gwahanol lefelau o erddi a phlanhigion yn arwain i'r gerddi suddedig.
3. Dod ag adeiladau'r bad achub a gwylwyr y glannau at ei gilydd ar un safle, dau adeilad gwahanol, mynediad diogel at y dŵr.
4. Cytiau traeth cyfoes, addas ar gyfer y safle - cyfleoedd rhentu ar hyd y glan môr.
5. Parc sglefrïo unigryw i oedolion gyda lle diogel i gadw beiciau, helmedau a byrddau rhwng y llecyn digwyddiadau a'r Glan Môr.
6. 'Trac pwmp' integredig.
7. Uwchraddio'r toiledau gyda llecyn cyhoeddus newydd yn cael ei greu o'u blaenau. Patrwm newydd i'r palmant yn creu canolbwynt yng nghanol y prom.
8. Creu lle newydd ar gyfer digwyddiadau, sy'n agored a hawdd ei addasu ar gyfer cynnal amrywiol ddigwyddiadau awyr agored - cyfle ar balmant caled i dryciau, marchnadoedd a digwyddiadau llwyfan gyda chyfle am seddau anffurfiol y tu ôl i'r bloc toiledau a lle am gyngherddau, digwyddiadau cymunedol etc.
9. Cyfle am strwythur hyblyg a all roi cysgod a gorchudd ac y gellir ei dynnu i lawr a'i olchi pan na fydd ei angen.



## 04

### Garden & Events Space

1. Opportunity for improved and larger surfing school, key location beside slip way, safe access to the beach.
2. Tiered levels of gardens, planting and robust types leading to the sunken gardens.
3. Lifeboat and Coastguard buildings gathered onto one site, two distinct buildings, safe access to the water.
4. Contemporary, of-the-place beach huts - rental opportunities along the seafront.
5. Unique, adult skate park with secure bicycle, helmet and board storage between events space and the seafront.
6. Integrated pump track.
7. Upgraded toilets with a new public plaza created in front. New paving pattern creating a focal point at the centre of the prom.
8. New events space created, open and versatile allowing various open-air events to be held - hard paving opportunity for food trucks, markets and staged events with opportunity for informal seating at the back of the toilet block and space for community concerts, events etc.
9. Removable tensile structure opportunity which will provide shade and cover and can easily be removed and washed when needed.



Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU



Funded by  
UK Government



**rl.**  
Roberts Limbrick

# Aberavon Seafront

## Glan y môr Aberafan



### 05 Y Morfil a Thraeth y Morglawdd

1. Cyfle i uwchraddio'r Morfil a pharchu treftadaeth y nodwedd hon ar hyd y glan môr.
2. Cyfle i dirlunio'r ardal o amgylch y Morfil a darparu lle naturiol i chwarae gan annog defnyddio'r pen hwn i'r prom.
3. Cyfle am hwb beicio integredig gyda lle parcio integredig, lle i weithdy bach a chadw helmedau etc. a fydd yn cysylltu â'r llwybr beicio Teithio Llesol ac â chysylltiadau Teithio Llesol ehangach.
4. Bloc toiledau newydd yn gwasanaethu Traeth 'bach' y Morglawdd a lleihau ymddygiad gwrth-gymdeithasol yma.
5. Cysylltiadau Teithio Llesol ar hyd y Traeth Bach yn darparu prom defnyddiol a mynediad iddo.
6. Cyfle i osod y morfil o fewn palmant lliwgar i fywiogi'r llecyn ac annog chwarae gyda'r pengwins yma.
7. Hyrwyddo cysylltiadau â'r Traeth Bach.
8. Hyrwyddo cysylltiadau â cynllun teithio llesol Newbridge Road.

### 05 Whale & Breakwater Beach

1. Opportunity to upgrade the Whale and respect the heritage of this feature along the seafront.
2. Opportunity to landscape the area around the Whale and provide natural play encouraging use at this end of the prom.
3. Opportunity for a fully integrated bicycle hub with integrated parking, a small workshop area and helmet storage etc. which will link to the Active Travel cycle path and to wider Active Travel links.
4. New toilet block serving the 'Small' Breakwater Beach and reducing antisocial behaviour here.
5. Active Travel links along the Small Beach providing a usable prom and access.
6. Opportunity to set the whale within colourful paving to animate the space and encourage play with the penguins here.
7. Promote links to Small Beach.
8. Promote links to Newbridge Road active travel scheme.



Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU



Funded by  
UK Government





# Aberavon Seafront Glan y môr Aberafan



## Beth yw'r camau nesaf?

Diolch am gymryd yr amser i gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn.

Mae eich adborth ar y cynllun a'i gynigion yn bwysig ar gyfer mireinio'r weledigaeth derfynol ar gyfer Glan y Môr.

Os nad ydych wedi rhoi adborth yn bersonol ddydd Gwener 18 neu 19 Hydref, yna mae ffyrdd eraill y gallwch chi gyfrannu a dweud eich dweud. Mae'r rhain yn cynnwys:

## What are the next steps?

Thank you for taking the time to contribute to this consultation.


Your feedback on the plan and its proposals is important for refining the final vision for the Seafront.

If you haven't given feedback in person on Friday 18th or 19th October, then there are other ways you can contribute and have your say. These include:

Sganiwch y QR i weld yr arolwg:

<https://www.smartsurvey.co.uk/s/Arolwgglanmoraberafan/>

CYM




I roi sylwadau ar-lein, ewch i:  
To make comments online visit:  
[www.beta.npt.gov.uk/aberavonmasterplan](http://www.beta.npt.gov.uk/aberavonmasterplan)



Scan the QR to access the survey:

<https://www.smartsurvey.co.uk/s/Aberavonseafontplansurvey/>

ENG



Os oes gennych chi sylw penodol nad yw wedi ei gynnwys yn yr arolwg, e-bostiwch ni ar [regeneration@npt.gov.uk](mailto:regeneration@npt.gov.uk)

If you have a specific comment that is not included within the survey, please email us at [regeneration@npt.gov.uk](mailto:regeneration@npt.gov.uk)



Y dyddiad cau i gwblhau'r arolwg a rhoi unrhyw sylwadau yw dydd Sul, 3 Tachwedd 2024

The closing date to complete the survey and provide any comments is Sunday, the 3rd of November 2024

<https://beta.npt.gov.uk/aberavonmasterplan>



Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU



Funded by  
UK Government



**RL**  
Roberts Limbrick